# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Fercher 19 Medi 2018**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Paul Rowlinson, Rheinallt Puw, Pearl Evans a Bleddyn Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Griff Morris a Neville Hughes

**3. Materion Brys**
**3.1 Clwb Ieuenctid –** siomedig nad yw'r Clwb Ieuenctid wedi ail-ddechrau ar ôl i'r Cyngor gytuno i'w ariannu.  Yr Is-bwyllgor i gyfarfod gyda swyddog Cyngor Gwynedd 24 Medi am 5.00yh.
**3.2** Cyfarfod i drafod Arolwg Cyhoeddus Cyngor Gwynedd: Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi? - wedi methu'r cyfarfod yn Ysgol Dyffryn Ogwen gan ei fod heno.  Trafodwyd bod yna gyfle i ail-drefnu cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor os oedd angen.  Penderfynwyd bod pawb yn hapus i lenwi'r holiadur papur neu ar-lein, felly nid oedd angen trefnu cyfarfod.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2018, yn ddarostyngedig i Eitem 3.2 - *'yr Hen Iard Glo'*, nid *'pwll glo'.*

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloc Gorffwysfan**- yr hawl i'r Clerc weithredu.
**5.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng yr Hen Iard Glo a groeslon Gerlan**-dal heb gael sylw, ac mae rhan o'r wal wedi dod lawr hefyd, sydd yn berygl i blant sy'n cerdded i'r ysgol.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael copi o Raglen Waith y Bartneriaeth.  Canmoliaeth i tîm y Bartneriaeth am yr holl waith arbennig.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
**Canolfan Cefnfaes** – adroddwyd bod y Pwyllgor Rheoli wedi dod i ben, ond bod Is-bwyllgor newydd wedi ei sefydlu, ac bod y Bartneriaeth yn gobeithio cael prydles 3 blynedd ar yr adeilad.
**Balchder Bro** – adroddwyd gan y Cyng. Neville Hughes bod llawer o waith ar y gweill
i) plannu cennin pedr o amgylch y fro
ii) cynlluniau ar gyfer uwchraddio'r basgedi crog ar gyfer y flwyddyn nesaf
iii) bod grant wedi ei dderbyn ar gyfer edrych ar ôl gardd Capel Jerusalem.
iv) taflenni ar y cyd gyda Cymdeithas Pysgota am Jac y Neidiwr.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Penderfynwyd gofyn wrth Bartneriaeth Ogwen greu taflen wybodaeth cryno ar gyfer trigolion Gerlan i'w diweddaru am y maes parcio.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2018'
**9.1** Llythyr gan Dr J Elwyn Hughes-cais i ariannu hanner y gost o adnewyddu gofeb Capel Bethesda. Penderfynwyd bod y Cyngor am gefnogi'r cais.
**9.2** E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri- nosweithiau gyda Cynghorau Tref a Chymuned 8 Hydref 2018. Y Cyng. Godfrey Northam am fynychu.
**9.3** Llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r biniau halen. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i drefnu eu cyflenwi, ac bod yn siomedig am y sôn o gasglu'r biniau gan bod hyn yn groes i'r gohebiaeth blaenorol.
**9.4** E-bost gan Clwb Rygbi Bethesda- cais am gyfraniad ariannol tuag at y clwb newydd. Penderfynwyd bydd y cais yn cael ei ystyried gyda'r ceisiadau blynyddol.
**9.5** E-bost gan Partneriaeth Ogwen – yn hyrwyddo sesiynau ymgynghori cyhoeddus Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. Penderfynwyd bydd pawb yn mynychu os yn bosib.

**10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C18/0603/13/LL**

| | |
|---|---|
| 27 Stryd Fawr, Bethesda | Newid defnydd llawr gwaelod yr adeilad o siop i swyddfa<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**C18/0592/13/CR**

| | |
|---|---|
| Capel Bethania, Ffordd Bangor, Bethesda | Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad yn 2 uned wyliau<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C18/0706/13/AC**

| | |
|---|---|
| Tir gyferbyn Plas Ffrancon, Lon Newydd, Bethesda | Rhyddhau amodau o ganiatâd cynllunio C15/0128/13/LL<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C18/0707/13/AC**

| | |
|---|---|
| Tir gyferbyn Plas Ffrancon, Lon Newydd, Bethesda | Rhyddhau amodau o ganiatâd cynllunio<br>APP/Q6810/A/14/22/5839<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, yn ddi-amodol |

**Ceisiadau**

Adroddwyd bod addasiadau wedi eu gwneud yn 11 Rhes Ogwen, Bethesda, ond nid oedd cais cynllunio wedi ei dderbyn. Penderfynwyd gwneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd.

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Awst a Medi) | £543.00 |
| CThEM (Awst a Medi) | £135.60 |
| Londis-papurau (Gorffennaf a Awst) | £61.60 |
| C Jackson – Fynwent | £400.00 |
| British Gas- Llys Dafydd | £65.47 |
| E Goodall – ffenestri Gorffwysfan | £7.00 |
| C Jackson – llwybrau cyhoeddus | £1994.50 |
| Partneriaeth Ogwen –Swyddog Cynnal | £3618.16 |
| C Jackson – Llys Dafydd | £250.00 |